

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol  
(Lle rhoddwyd rhybudd)  
Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan, Canolfan  
Ddeintyddol Coed Duon**

3 Mawrth 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .....	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	16
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	20
6.	Y Camau Nesaf.....	22
	Atodiad A.....	23

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Coed Duon yn 171A Stryd Fawr, Coed Duon, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 3 Mawrth 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru<sup>1</sup>.

Mae AGIC yn deall bod Canolfan Ddeintyddol Coed Duon yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG – mae tua 90% o gleifion yn gleifion y GIG a thua 10% yn gleifion preifat. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

---

<sup>1</sup> Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwyllir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. [www.wales.nhs.uk/governance-emanual/agordogfen/218839](http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/agordogfen/218839)

- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Coed Duon yn darparu gwasanaethau i gleifion y GIG ac i gleifion preifat yn ardal Coed Duon Sir Caerffili. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd (gan gynnwys dau brif ddeintydd sy'n berchen ar y practis), un llawfeddyg deintyddol, tair nyrs (gan gynnwys un dan hyfforddiant), un hylenydd, a rheolwr y practis.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol, hylenydd a llawdriniaeth ar y geg.

## 4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae Canolfan Ddeintyddol Coed Duon yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Mae un o'r deintyddion yn siarad Cymraeg, ac roedd cleifion yn gallu cael apwyntiadau yn Gymraeg. Gwnaethom argymhell bod y practis yn datblygu system gadarn ar gyfer cael adborth gan gleifion.

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Gosodwyd ystafell ddadheintio newydd er mwyn gallu glanhau offer deintyddol yn fwy effeithiol.

Roedd angen i'r practis ddatblygu system gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar dadebru a meddyginiaeth frys angenrheidiol ar gael ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Canfuom fod angen gwella'r broses o gadw cofnodion.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis newydd ddod i feddiant perchennog newydd, ac roedd dau brif ddeintydd yn berchen arno. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfnod trawsnewid wedi bod yn her, ond eu bod yn hapus yn eu swyddi a chyda'r perchnogion newydd. Cyflwynwyd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i'r cleifion.

Roedd gwaith ailwampio'n mynd rhagddo yn y practis ar adeg yr arolygiad, a chwblhawyd un o'r ystafelloedd triniaeth yn ddiweddar. Er gwaethaf y gwaith ailwampio parhaus, canfuom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Nid oedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn yn y practis deintyddol a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth. Mae un o'r deintyddion yn siarad Cymraeg, ac roedd cleifion yn gallu cael apwyntiadau yn Gymraeg. Gwnaethom argymhell bod y practis yn datblygu system gadarn ar gyfer cael adborth gan gleifion.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn gwybod barn cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir. Cwblhawyd deg o holiaduron cleifion. Gwnaethom hefyd siarad â dau glaf ar ddiwrnod yr arolygiad a gwnaethom arsylwi ar sgysiau cyffredinol rhwng y staff a grŵp bach o gleifion. Dywedodd pob claf eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn gan y practis, a'u bod yn cael croeso cynnes gan y staff. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Bodlon iawn."*

*"Rydym bob amser wedi derbyn gwasanaeth da gan y practis deintyddol hwn, ac mae'r holl staff yn barod iawn eu cymwynas ac yn gyfeillgar."*

*"Cyfeillgar iawn a bob amser yn barod eu cymwynas."*

*"Gwasanaeth proffesiynol cyfeillgar."*

*"Mae'r deintydd a'r staff yn gyfeillgar ac yn barod iawn eu cymwynas."*

*"Mae'r staff bob amser yn gwrtais, yn groesawgar ac yn gymwynasgar iawn."*

*"Pobl dda, gyfeillgar, bob amser yn groesawgar."*

Dywedodd un claf y gwnaethom siarad â hi ei bod yn nerfus iawn ynghylch cael triniaeth ddeintyddol, ond esboniodd ei bod yn hoff o'r practis gan fod y staff yn helpu i dawelu ei meddwl. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintydd. Dywedodd yr holl gleifion eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth, dywedodd un claf *"ydy, mae'r wybodaeth bob amser ar gael"*. Dywedwyd wrthym fod y deintydd yn esbonio



triniaethau i gleifion ar lafar, a chadarnhawyd gennym fod yr opsiynau triniaeth a drafodir yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol brys. Gwelsom arwydd y tu allan i ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt brys, a gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt ar neges peiriant y practis.

Roedd y practis yn cynnal arolygon cleifion fel rhan o'r contract ar gyfer llawdriniaeth ar y geg gyda'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gwnaethant gadarnhau nad oeddent yn dadansoddi canlyniadau'r arolygon hyn fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom drafod yr angen i'r practis ddatblygu system o gasglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, megis defnyddio blwch awgrymiadau neu holiaduron cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu ffordd gadarn o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.***

Dywedodd tri chlaf wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, ond gwnaethant ddweud hefyd nad oeddent yn teimlo bod angen cwyno. Gwelsom fod gwybodaeth ynghylch cwynion i'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol<sup>2</sup> ar yr hysbysfwrdd yn y man aros i gleifion, ac roedd cyfeiriad at y polisi cwynion yn y llyfr gwybodaeth i gleifion ar ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, nid oedd polisi cwynion y practis yn cael ei arddangos i'r cleifion allu ei weld.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod poster cwynion wedi'i arddangos lle gall cleifion ei weld.***

Rydym wedi gwneud argymhelliad ynghylch yr hyn y sydd angen ei ddiweddarau yn y polisi cwynion yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn (tudalen 18).

Cadarnhaodd y prif ddeintydd nad oedd gan y practis wefan, ond roeddent y bwriadu datblygu gwefan yn y dyfodol. Gwnaethom drafod bod angen i'r practis gydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu wrth ddatblygu'r wefan.

---

<sup>2</sup> Mae'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol yn sefydliad sy'n cynnig cyngor a chefnogaeth i gleifion a gweithwyr proffesiynol, ac sy'n ymdrin â chwynion ynglŷn â gofal deintyddol preifat.

Roedd taflenni gwybodaeth yn y practis, ac roedd ffolder yn cynnwys gwybodaeth i gleifion ar gael ar ddesg y dderbynfa. Gwelsom fod rhywfaint o'r wybodaeth yn y dderbynfa/man aros yn cyfeirio at Fwrdd Iechyd Lleol Caerffili, ac nid at Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Tynnwyd sylw'r practis at hyn, ac aethpwyd i'r afael â'r mater ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom fod detholiad o daflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn y dderbynfa/man aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am glefyd y deintgig, triniaeth ar sianel y gwreiddyn a brwsio dannedd, ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig arall. Fodd bynnag, ni welsom wybodaeth am ymwybyddiaeth o ganser y geg a rhoi'r gorau i smygu. Gwnaethom drafod yr angen i ddarparu gwybodaeth hyrwyddo iechyd pellach i gleifion yn y practis. Cytunodd y prif ddeintydd i ystyried hyn, gan ddangos llun inni o'i syniad ar gyfer arddangosfa yn cynnwys gwybodaeth am gynnwys siwgr mewn diodydd poblogaidd.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried rhoi mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg.***

Awgrymwyd y dylai'r practis ystyried sut y gallent sicrhau bod gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan gleifion.

Dywedodd y practis wrthym fod un o'r deintyddion yn siarad Cymraeg a'i fod yn gallu cynnal apwyntiadau yn Gymraeg i'r cleifion oedd yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd un o'r prif ddeintyddion ei fod wrthi'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Efallai dylai'r practis ystyried ffordd o hyrwyddo'r ffaith bod staff ar gael sy'n siarad Cymraeg, er mwyn i'r cleifion fod yn ymwybodol o'r dewis iaith hwn.

## ***Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru***

**Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi i gleifion mewn modd diogel. Gosodwyd ystafell ddadheintio newydd er mwyn gallu glanhau offer deintyddol yn fwy effeithiol.**

**Roedd angen i'r practis ddatblygu system gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl gyfarpar dadebru a meddyginiaeth frys angenrheidiol ar gael ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.**

### **Cyfleusterau Clinigol**

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob ystafell driniaeth, a gweld eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Defnyddir Ystafell Driniaeth 2 ar gyfer triniaethau hylendid a llawdriniaeth ar y geg, felly nid oedd yn cynnwys offer a deunydd ar gyfer deintyddiaeth gyffredinol. Gwnaethom sylwi bod Ystafell Driniaeth 2 wedi cael ei hailwampio'n ddiweddar a'i bod yn lân ac yn daclus, tra bod Ystafell Driniaeth 1 yn cael ei hailwampio ar y pryd. Cadarnhaodd y prif ddeintydd y byddai Ystafell Driniaeth 1 yn cael ei chwblhau i'r un safon ag Ystafell Driniaeth 2. Gwnaethom sylwi bod y drysau ar y cypyrddau yn Ystafell Driniaeth 1 yn llac, a bod hyn yn ei wneud yn anodd eu hagor a'u cau. Roedd y drysau ar un o'r cypyrddau'n llac iawn, ac roedd hyn yn golygu bod risg y gallent gwympto ac anafu'r staff. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid naill ai peidio â defnyddio'r cwpwrdd penodol hwn, neu ei wneud yn ddiogel. Cytunodd y prif ddeintydd i fynd i'r afael â hyn.

Canfuom nad oedd Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r pwrpas ac yn ddiogel i'w defnyddio.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob dyfais drydanol fach yn ddiogel i'w defnyddio drwy gynnal Prawf Dyfeisiadau Cludadwy rheolaidd.***

Canfuom fod angen i'r cyfarpar (cywasgydd) a ddefnyddir i gyflenwi aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth deintyddol gael ei wasanaethu.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y cywasgydd yn cael ei archwilio a'i wasanaethu'n rheolaidd.***

## **Dadheintio offer**

Roedd y practis wedi gosod ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol yn ddiweddar, ac roedd prosesau addas ar waith i rwystro croes-heintio rhwng cleifion. Er bod yr ystafell hon yn fach, roedd y maint yn addas i'w gwneud yn bosibl i lanhau offer yn effeithiol, ac roedd o safon dda. Roedd sinciau golchi dwylo neilltuedig ar gael i helpu i reoli heintiau. Gwnaethom sylwi bod drws yr ystafell ddadheintio wedi'i ddatgysylltu o ganlyniad i'r gwaith ailwampio parhaus yn y practis. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid ailosod y drws cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw erosolau halogedig (a gynhyrchir wrth lanhau offer brwnt) yn cyrraedd y coridor a mannau'r cleifion. Cytunodd y practis i roi sylw i hyn.

Roedd llyfrau cofnodion yn cael eu cynnal ar gyfer glanhau offer, ac roedd tystiolaeth bod y gwiriadau safonol sy'n cael eu cynnal gan staff nyrsio ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dydd wedi cael eu cofnodi. Roedd hefyd system addas ar gyfer sicrhau bod offer yn cael ei ddefnyddio o fewn y cyfnod storio a argymhellir.

Gwelsom dystiolaeth fod y staff nyrsio wedi cwblhau hyfforddiant unigol ar ddadheintio, ac roedd y polisi dadheintio a'r weithdrefn ddadheintio wedi'u harddangos yn y man glanhau. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant dadheintio ar gael ar gyfer unrhyw un o'r deintyddion.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Dylai'r holl staff sy'n chwarae rhan mewn gwaith dadheintio gael cofnodion hyfforddiant unigol.***

Dyweddodd y nyrs ddadheintio wrthym ei bod wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau fel rhan o'i datblygiad proffesiynol parhaus ei hun, ond ni chwblhawyd cynllun archwilio a gwella yn y practis fel yr argymhellir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<sup>3</sup>.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Dylai'r practis ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella i ddelio â'r problemau a amlygir.***

---

<sup>3</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

## **Gwaredu gwastraff**

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol yn bodoli. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod modelau deintyddol yn cael eu rhoi yn y gwastraff clinigol yn hytrach na mewn cynhwysydd ar wahân.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod modelau deintyddol yn cael eu rhoi yn y cynhwysydd gypswm (plaster) priodol.***

Er bod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel yn y practis, roedd y man storio a oedd yn cael ei ddefnyddio ar y llawr top, yng nghegin y staff. Gwnaethom gynghori'r practis bod angen adleoli'r man storio gwastraff clinigol fel nad oes angen ei gario drwy gegyn y staff ac i lawr drwy'r practis. Byddai hyn yn lleihau'r risg o arllwys gwastraff. Cytunodd y prif ddeintydd i ddefnyddio cwpwrdd gwahanol ar gyfer storio gwastraff clinigol.

Nid oedd gan y practis contract gyda'r cyngor lleol ar gyfer casglu gwastraff domestig, a gwnaethom gynghori'r practis i gysylltu â'r cyngor i drefnu hyn.

## **Offer radiograffig (pelydr-X)**

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau ynglŷn â gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion gweithdrefnau pelydr-X i'r staff, yn cynnwys enwau'r goruchwylydd a'r cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd, a bod angen iddi gael ei diweddarau gyda manylion y perchennog newydd.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid diweddarau'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd gydag enwau'r goruchwylydd a'r cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd, a manylion y perchennog newydd.***

Dywedwyd wrthym fod y staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant addas ar ymbelydredd ïoneiddio. Nid oedd tystysgrifau ar gyfer yr holl aelodau staff ar gael ar y dydd, ond fe'u hanfonwyd i AGIC ar ôl yr arolygiad, er mwyn cadarnhau bod hyfforddiant wedi'i gynnal. Canfuom hefyd nad oedd archwiliadau sicrhau ansawdd wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau ansawdd delweddau'r sganiau pelydr-X.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer offer radiograffig yn ôl y gofynion yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).***

### **Cyfarpar meddygol a meddyginiaeth frys**

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth ar gael i staff pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Fodd bynnag, roedd y cyfarpar dadebru a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu cadw mewn lleoliadau gwahanol yn y practis. Gwnaethom gynghori y dylai'r holl gyfarpar a chyffuriau brys gael eu storio gyda'i gilydd os yn bosibl, mewn man sy'n hysbys i'r holl aelodau staff, er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth drin cleifion mewn argyfwng. Canfuom hefyd nad oedd gan y practis bolisi dadebru er mwyn cynghori'r staff o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer a chyffuriau dadebru'n cael eu cadw gyda'i gilydd, er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth drin cleifion mewn argyfwng.***

***Dylai'r practis ddatblygu polisi dadebru, fel bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol.***

Canfuom nad oedd gan y practis system addas ar gyfer sicrhau bod cyfarpar dadebru a meddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom sylwi bod un o'r cyffuriau achosi brys a ddefnyddir ar gyfer ffitiau epileptig (midazolam) wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio. Cadarnhaodd y practis eu bod eisoes wedi archebu rhagor o'r cyffur hwn. Canfuom hefyd nad oedd offer sugno cludadwy ar gael, ac nid oedd tystiolaeth bod lefelau ocsigen yn y silindrau ocsigen cludadwy wedi cael eu gwirio er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol pe bai argyfwng.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod system gadarn ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar dadebru a meddyginiaeth frys yn bresennol ac yn ddiogel i'w defnyddio.***

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth fod staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a bod swyddog cymorth cyntaf

penodedig. Cadarnhaodd y prif ddeintydd bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Nid oedd tystysgrifau ar gael i gadarnhau hyn mewn perthynas â bob aelod o staff ar y diwrnod, ond fe'u hanfonwyd i AGIC ar ôl yr arolygiad.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o saith cofnod claf. Ar adeg yr arolygiad, roedd holl gofnodion cleifion y practis ar ffurf cofnodion papur yn unig.

Dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod ganddo gynlluniau i drosglwyddo'r holl gofnodion cleifion i system electronig yn y dyfodol agos.

#### *Cofnodion cleifion llawdriniaeth ar y geg*

Roedd y ddau prif ddeintydd yn gwneud asesiadau a llawdriniaeth ar y geg yn unig, ac roeddent yn gweld cleifion a atgyfeiriwyd yn unig. O ganlyniad i hyn, roedd y nodiadau ar gyfer y prif ddeintyddion yn wahanol i'r nodiadau a gwblhawyd ar gyfer triniaethau deintyddol cyffredinol a gwblhawyd gan y ddau ddeintydd cysylltiol arall. Yn gyffredinol canfuom fod y nodiadau ar gyfer y prif ddeintyddion yn foddhaol, a gwelsom fod dull addas o gael cydsyniad y claf. Ni wnaethom edrych ar nodiadau'r llawfeddyg deintyddol ar yr achlysur hwn.

#### *Cofnodion cleifion deintyddol cyffredinol*

Rydym wedi nodi gwelliannau sydd eu hangen i'r broses o gadw cofnodion cleifion deintyddol cyffredinol, ond gwnaethom nodi hefyd y gellid gwella neu ddatrys rhai o'r meysydd hyn pan fydd y practis yn trosglwyddo i system electronig. Yn gyffredinol, canfuom mai prin oedd manylion triniaethau yn nodiadau'r cleifion, ac roedd angen mwy o fanylder mewn nodiadau archwilio. Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i'r diffyg lle ar y cardiau cofnodion papur.

Canfuom nad oedd y cofnodion ar y cardiau cofnodion papur wedi eu llofnodi'n rheolaidd gan y deintydd, ac roedd hyn yn golygu ei fod yn anodd gweld pa ddeintydd oedd wedi cyflawni'r driniaeth. Canfuom hefyd ei fod yn anodd gweld beth oedd trefn gronolegol nodiadau'r cleifion, gan nad oedd rhifau ar y cardiau cofnodion papur.

Nid oedd ffurflenni hanes meddygol yn cael eu cydlofnodi'n rheolaidd gan y deintyddion a'u diweddarau ym mhob triniaeth. Er diogelwch y cleifion, mae'n bwysig i'r hanesion meddygol gael eu gwirio a'u cydlofnodi gan y deintydd ym mhob apwyntiad, er mwyn dangos bod y deintydd yn ymwybodol o unrhyw gyflyrau meddygol. Ni chofnodwyd unrhyw wybodaeth yn nodiadau'r cleifion am hanes cymdeithasol, megis ysmegu ac yfed alcohol. Ni welsom dystiolaeth ychwaith bod sgrinio yn cael ei wneud ar gyfer canser y geg, oherwydd ni chafodd hyn ei gofnodi.

Gwelsom nad oedd cydsyniad y claf bob amser yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion, pan roddwyd cydsyniad llafar. Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion yn cael cynlluniau triniaeth, ond canfuom nad oedd y cleifion bob amser yn eu cael. Gwelsom fod gan y practis ffurflenni cydsyniad ysgrifenedig a oedd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwahanol fathau o driniaeth, ond nid oeddent yn cael eu defnyddio. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd a gadarnhaodd y gallent ddechrau rhoi'r ffurflenni cydsyniad ysgrifenedig hyn i'r cleifion.

Canfuom nad oedd amllder apwyntiadau dilynol (pa mor aml yr argymhellwyd y dylai'r cleifion gael apwyntiadau) bob amser yn cael ei gofnodi. Golyga hyn nad yw'n bosibl asesu a yw'r canllawiau perthnasol<sup>4</sup> ynghylch amllder apwyntiadau dilynol wedi cael eu dilyn.

Canfuom nad oedd canfyddiadau clinigol (yr hyn yr oedd y sganiau pelydr-X yn ei ddangos) bob amser yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Nid oeddem yn gallu gweld bod ansawdd delweddu'r sganiau pelydr-X a gymerwyd wedi cael eu graddio, na bod y cyfiawnhad dros wneud sganiau pelydr-X wedi ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion. Fodd bynnag, dywedodd y prif ddeintydd wrthym fod hyn yn cael ei gofnodi mewn llyfr ar wahân yn yr ystafell driniaeth.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwella'r broses o gadw cofnodion cleifion, a dylid cofnodi'r canlynol yn nodiadau'r cleifion:***

- ***Mwy o fanylder yn nodiadau archwilio'r cleifion***
- ***Enw neu lythrennau cyntaf y clinigydd sy'n trin (deintydd)***
- ***Dylai ffurflenni hanes meddygol gael eu cydlofnodi gan y deintyddion a'u diweddarau ym mhob triniaeth.***
- ***Gwybodaeth am hanes cymdeithasol a sgrinio ar gyfer canser y geg.***
- ***Cydsyniad y claf***
- ***Dylid darparu cynllun triniaeth i bob claf.***

---

<sup>4</sup> Mae canllawiau clinigol ail-alw deintyddol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn helpu clinigwyr i benderfynu pa mor aml rhwng apwyntiadau iechyd y geg sy'n briodol o ran bodloni anghenion cleifion unigol.



- ***Amllder apwyntiadau dilynol***
- ***Canfyddiadau clinigol o sganiau pelydr-X.***

## ***Rheolaeth ac Arweinyddiaeth***

**Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis newydd ddod i feddiant perchennog newydd, ac roedd dau brif ddeintydd yn berchen arno. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfnod trawsnewid wedi bod yn her, ond eu bod yn hapus yn eu swyddi a chyda'r perchnogion newydd. Cyflwynwyd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r nod o ddarparu gofal diogel i'r cleifion.**

Daeth y practis o dan berchenogaeth newydd ym mis Hydref 2014. Ers y cyfnod hwn, mae'r practis wedi cael ei adnewyddu'n sylweddol, ac roedd gwaith yn dal i fynd rhagddo ar adeg yr arolygiad. Cyflwynwyd polisiâu a phrosesau newydd gan y perchnogion newydd, a chafwyd rhywfaint o newid yn swyddi a chyfrifoldebau'r aelodau staff oedd yno. Dywedodd y staff wrthym fod y cyfnod trawsnewid wedi bod yn her, ond eu bod hapus yn eu swyddi a chyda'r perchnogion newydd. Dywedodd un aelod o staff wrthym fod y perchnogion newydd wedi gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi drwy ddiolch iddynt am eu holl waith caled yn ystod y broses drosglwyddo. Dywedodd yr holl aelodau staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym am y gwelliannau a wnaed i amgylchedd y practis yn y misoedd diweddar.

Roedd y practis yn dibynnu ar systemau a oedd yn seiliedig ar bapur ar adeg yr arolygiad, gan gynnwys pob achos o atgyfeirio a rhyddhau mewn perthynas â llawdriniaeth ar y geg. Golyga hyn fod cryn dipyn o waith i reolwr y practis a'r staff arall a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith hwn. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod y byddai eu gwaith yn dod yn haws ar ôl i system electronig gael ei chyflwyno. Roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiâu, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Roedd y polisiâu'n drefnus ac roedd yn hawdd i aelodau staff ddod o hyd iddynt. Er ei fod yn glir bod yr holl bolisiâu wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar, gwnaethom sylwi nad oeddent yn cynnwys dyddiad y fersiwn, ac ni nodwyd dyddiad ar gyfer adolygu'r polisi. Gwnaethom gynghori'r practis y dylid ychwanegu dyddiadau adolygu at yr holl bolisiâu er mwyn dangos mai dyma'r fersiwn diweddaraf. Nid oedd y polisiâu wedi cael eu llofnodi gan y staff i ddangos eu bod yn ymwybodol ohonynt.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai fod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n gyfredol, a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.***

Roedd y practis wrthi'n llunio contractau newydd ar gyfer aelodau staff. Ar adeg yr arolygiad, datblygwyd contractau ar gyfer deintyddion cysylltiol, ond ni chafodd y rhain eu llofnodi. Roedd gan y rhan fwyaf o'r aelodau staff yno gontractau cyflogaeth gan y perchennog blaenorol, ond roedd dau aelod o staff heb gontractau o gwbl.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai pob aelod o staff gael contractau cyflogaeth, gyda manylion y perchnogion newydd a'r trefniadau gweithio.***

Dywedwyd wrthym fod y practis wrthi'n cynnal arfarniadau staff, a bod y staff wedi cael ffurflenni i'w llenwi cyn eu cyfarfod arfarnu. Gwnaethom drafod yr angen i brif ddeintyddion gael arfarniadau hefyd, a gwnaethant gytuno i drefnu hyn.

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Ni welsom yswiriant indemniad ar gyfer y nyrsys, ond cadarnhaodd y prif ddeintydd fod y nyrsys yn dod o dan yswiriant y deintyddion.

Roedd ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus (hyfforddiant) yn cael eu cadw gan aelodau unigol o staff gan mwyaf, ac felly nid oedd y rhain ar gael i'w harolygu ar yr achlysur hwn. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddiant perthnasol i'w swyddi ac roedd y tystysgrifau hyfforddiant a welsom yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gwblhawyd gan aelodau o staff clinigol. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant. Cadarnhaodd y prif ddeintydd nad oedd hyfforddiant amddiffyn oedolion wedi cael ei gwblhau gan y staff.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r gweithdrefnau lleol y dylid eu dilyn os ydynt yn amau achos o gam-drin.***

Yn unol â'r rheoliadau<sup>5</sup> perthnasol ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd yr holl ddeintyddion a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'u cofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru wedi'u harddangos yn y practis. Roedd angen diweddarau rhai manylion, a gwnaed trefniadau ar gyfer hyn yn dilyn yr arolygiad.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan ddau o'r deintyddion dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd, a wnaeth gytuno i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn diweddarau eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Nid yw'n orfodol i staff y practis gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; fodd bynnag, mae'n ofynnol bod y deintydd sy'n eu cyflogi yn ymgymryd â gwiriadau i sicrhau bod staff yn addas ar gyfer cyflogaeth. Gwnaethom drafod y trefniadau ar gyfer gwiriadau staff gyda'r prif ddeintyddion, a gwnaethant gadarnhau y byddai hyn yn cael ei gwblhau ar gyfer unrhyw staff newydd.

Roedd gan y practis drefniadau i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol drwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau priodol i'w hamddiffyn rhag firysau'r gwaed. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion imiwnedd ar gael ar gyfer rhai aelodau staff, ac roedd y cofnod ar gyfer un o'r nyrsys yn aneglur o ran statws imiwnedd.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

#### ***Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y brechiadau priodol i'w hamddiffyn yn erbyn firysau'r gwaed.***

Roedd gan y practis drefniadau addas ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Ni chofnodwyd unrhyw ddamweiniau ers i'r perchnogion newydd gyrraedd. Gwnaethom drafod yr angen i'r practis sicrhau eu bod yn cynnal cyfrinachedd gwybodaeth staff a chleifion drwy storio cofnodion damweiniau cyflawn mewn lleoliad ar wahân i'r llyfr damweiniau.

Roedd y perchnogion newydd wedi cyflwyno cyfarfodydd staff ac wedi cynnal dau gyfarfod ers iddynt gyrraedd. Roeddent yn bwriadu cynnal y rhain yn

---

<sup>5</sup> Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Cyflwynodd y rhain y gofynion cyfreithiol o ran deintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddiaeth preifat.

rheolaidd, ond nid oeddent wedi cael cyfarfod staff yn 2015 eto. Nid oedd cofnodion y cyfarfodydd ar gael ar adeg yr arolygiad, ond gwelsom agenda a oedd yn cadarnhau bod ystod o faterion wedi eu trafod. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn. Un o'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y cyfarfodydd hyn oedd y byddai'r staff yn elwa ar gael rolau mwy penodol yn eu swyddi. Cytunodd y prif ddeintyddion i roi sylw i hyn.

Nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion ers i'r perchnogion newid, ac fe'n hysbyswyd nad oedd y perchennog blaenorol wedi derbyn unrhyw gwynion. Gwnaethom drafod gyda'r practis yr angen i gofnodi'r holl gwynion, gan gynnwys cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol, er mwyn iddynt allu asesu p'un a oedd unrhyw themâu yn dod i'r golwg a defnyddio cwynion fel ffordd o wella eu gwasanaeth.

Cawsom fod y broses gwyno yn gyffredinol yn cydymffurfio â'r trefniadau yng ngweithdrefn cwynion cleifion y GIG o'r enw 'Gweithio i Wella', a rhoddodd restr o sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw os oedd ganddynt gŵyn. Fodd bynnag, roedd angen i'r polisi gynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer cleifion preifat. Mae angen hyn dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat. Dylai'r polisi hefyd gyfeirio at y Cyngor Iechyd Cymuned, a allai roi cymorth eiriolaeth i gleifion preifat a chleifion y GIG.

### ***Y gwelliant sydd ei angen***

***Dylid diweddarau'r polisi i gynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer cleifion preifat.***

***Dylai'r polisi gynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg yn glŷn â hyn yn yr arolygiad nesaf.

## ***Ansawdd yr Amgylchedd***

**Roedd y practis wrthi'n ailwampio ar adeg yr arolygiad ac roedd gwaith yn un o'r ystafelloedd triniaeth wedi cael ei gwblhau yn ddiweddar. Er gwaetha'r ailwampio cyfredol gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth. Nid oedd mynediad i'r practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.**

Mae'r practis wedi'i leoli yn agos i'r brif stryd siopa yng Nghoed Duon. Ceir dwy ystafell driniaeth yn y practis ac ystafell aros/derbynfa ar lawr cyntaf yr adeilad. Mae llefydd parcio ar gael mewn meysydd parcio cyhoeddus ger y practis.

Ceir mynediad i'r practis i fyny grisiau o lefel y stryd. Nid oedd unrhyw fynediad amgen ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd. Dywedodd y practis wrthym eu bod yn ystyried gwella mynediad i'r practis trwy osod lifft risiau, ond nid oedd trefniadau i wneud hyn yn y dyfodol agos.

Roedd arwydd ar ddrws y practis gydag enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, amseroedd agor a rhif cyswllt mewn argyfwng ar gyfer gwasanaethau y tu allan i oriau arferol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd enwau a rhifau cofrestru'r holl staff clinigol yn cael eu harddangos yn y practis yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Dylai'r rhain fod yn hawdd i gleifion eu gweld.

### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddangos gwybodaeth am staff (gan gynnwys eu rhifau cofrestru lle y bo'n briodol) mewn man lle gall y cleifion ei gweld yn hawdd.***

Roedd rhestrau prisiau i gleifion GIG a phreifat wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Roedd yr ardal aros o faint priodol ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth ac roedd yn lân ac yn daclus.

Cadarnhaodd taith o'r adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol a'i fod wrthi'n cael ei ailwampio'n helaeth. Roedd rhannau o'r practis, fel Ystafell Driniaeth 1 a'r ystafell ddadheintio, wedi cael eu hailwampio'n ddiweddar ac roedd gwaith yn dal i fynd yn ei flaen mewn mannau eraill. Er hyn, ar y cyfan roedd y practis yn lân ac yn daclus drwyddi draw. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r gwelliannau sylweddol oedd wedi eu gwneud i'r amgylchedd gweithio.

Roedd gan y practis doiled neillryw i staff/cleifion ar y llawr cyntaf, oedd wedi cael ei ailwampio'n ddiweddar ac roedd yn aros i'r gwaith plastr yn yr ystafell

gael ei addurno. Roedd hwn i'w weld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio. Fodd bynnag, roedd yr arwydd toiled ar y drws ar goll. Eglurodd y prif ddeintydd bod hyn oherwydd bod y drws yn newydd ac y byddai hyn yn cael sylw.

Roedd ardal staff ar yr ail lawr wrthi'n cael ei hailwampio, gyda chegin /ardal fwyta, ardal newid a swyddfa. Roedd labordy newydd hefyd yn cael ei adeiladu, ond ni wnaethom edrych ar hwn fel rhan o'n harolygiad. Gwelsom fod y coridorau a'r ardal staff yn swnllyd ar adegau oherwydd sŵn yr offer oedd yn cywasgu aer ar gyfer yr ystafelloedd triniaeth (cywasgydd). Gwnaethom drafod hyn gyda'r prif ddeintydd a eglurodd eu bod yn bwriadu creu gwrthsain o amgylch yr offer. Yn y cyfamser, awgrymodd y gellid diffodd yr offer hwn yn ystod amser cinio er mwyn i'r ardal fod yn rhydd rhag sŵn i'r staff ei defnyddio.

Roedd arwydd ar gyfer yr allanfa dân ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Fodd bynnag, oherwydd y gwaith adeiladu, roedd un o'r arwyddion allanfa dân uwchben y grisiau wedi cael ei dynnu.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod arwyddion priodol ar gyfer pob allanfa dân yn cael eu harddangos.***

Gwnaethom argymhell bod y practis yn cynnal asesiad risg tân trwy'r adeilad, unwaith y bydd yr holl waith ailwampio wedi ei gwblhau. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad. Gwelsom fod trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ffeiliau dan glo. Fodd bynnag, nid oedd y cypyrddau'n gallu gwrthsefyll tân, oedd yn golygu y gallai'r holl gofnodion papur gael eu dinistrio mewn tân. Roedd y practis yn bwriadu trosglwyddo'r holl gofnodion i system electronig a fyddai'n cael ei gadw oddi ar y safle. Gwnaethom drafod yr angen i ddiogelu cofnodion cleifion yn y practis a threfnu i storio'r cofnodion mewn cypyrddau oedd yn gwrthsefyll tân pe bai unrhyw oedi wrth drosglwyddo cofnodion i system electronig.

#### ***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried diogelu cofnodion papur cleifion yn y cyfnod interim cyn i'r cofnodion gael eu rhoi ar gyfrifiadur.***

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Coed Duon yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.



## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Canolfan Ddeintyddol Coed Duon**

**Dyddiad yr Arolygiad: 3 Mawrth 2015**

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant Sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<b>Profiad y Claf</b>			
7	<p>Dylai'r practis ddatblygu ffordd gadarn o geisio barn ac adborth gan gleifion er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd.</p> <p>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Safon 5a-c; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 2.1]</p>	<p>Bydd holiaduron i gleifion (ar gyfer deintyddiaeth gyffredinol a llawdriniaeth y geg) yn cael eu dosbarthu i gleifion yn rheolaidd, gydag adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o'r canfyddiadau.</p> <p>Bydd blwch sylwadau ac awgrymiadau cleifion yn cael ei osod yn y dderbynfa a gall cleifion wneud argymhellion gan roi eu henwau neu yn anhysbys.</p>	Zoe Clarke	Ar unwaith
7	<p>Dylai'r practis sicrhau bod poster cwynion yn cael ei arddangos lle gall cleifion ei weld.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol</p>	<p>Bydd hwn yn cael ei osod ar hysbysfwrdd yn y dderbynfa dros dro ond, unwaith y bydd y dderbynfa wedi cael ei hailwampio, bydd yr holl hysbysiadau'n cael eu gosod mewn fframiau ar y</p>	Zoe Clarke	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant Sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	5.1.5]	waliau. Bydd hefyd yn weladwy yn y ffolder gwybodaeth i gleifion yn y dderbynfa		
8	Dylai'r practis ystyried rhoi gwybodaeth bellach i gleifion am hyrwyddo iechyd, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu ac ymwybyddiaeth o/rhwystro canser y geg. [Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Safon 3b-c]	Darparu taflenni gwybodaeth ynghylch canser y geg a rhoi'r gorau i ysmegu. Hyrwyddo'r materion deintyddol hyn gydag arddangosfeydd a gwybodaeth bellach am ddyddiadau dynodedig eu diwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol yn ystod y flwyddyn.	Zoe Clarke	Ar unwaith: taflenni.  Dyddiadau dynodedig ar gyfer ymwybyddiaeth ddeintyddol ar gyfer arddangosfeydd a gwybodaeth bellach
<b>Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</b>				
9	Dylai'r practis sicrhau bod pob dyfais trydanol cludadwy yn ddiogel i'w defnyddio trwy eu profi'n rheolaidd. [Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 Adran 4(2); Awdurdod Gweithredu Iechyd a Diogelwch]	Rydym wedi trefnu i brofion dyfeisiadau trydanol cludadwy gael eu cynnal yn ystod y pythefnos nesaf (dyna'r dyddiad cynharaf yr oeddem yn gallu trefnu profwr cymwys ar gyfer y prawf)	Zoe Clarke	Ar unwaith
9	Dylai'r practis sicrhau bod y cywasgydd yn cael ei archwilio a'i wasanaethu'n rheolaidd.	Adolygu archwilio'r cywasgydd a threfnu iddo gael ei wasanaethu.	Zoe Clarke	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant Sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Safon 16a; Rheoliadau Systemau Pwysedd a Chynwysyddion Nwy Cludadwy 1989 a Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000]			
10	Dylai'r holl staff sy'n chwarae rhan mewn gwaith dadheintio gael cofnodion hyfforddiant unigol. [Canllawiau WHTM 01-05, Adran 24o]	Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio offer ac ystafelloedd triniaeth gofnodion hyfforddiant unigol. Mae angen i'r deintyddion gael eu hysbysu.	Colin Rees	Tri mis
10	Dylai'r practis ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau o leiaf unwaith bob blwyddyn a datblygu cynllun gwella i ymdrin ag unrhyw broblemau a amlygir. [Canllawiau WHTM 01-05, adran 1.8]	Dylai'r practis ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau bob chwe mis a datblygu cynllun gwella i ymdrin ag unrhyw broblemau a amlygir. Bydd yr archwiliad rheoli heintiau cyntaf yn cael ei gwblhau o fewn y tri mis nesaf	Zoe Clarke a Colin Rees	Wrthi'n casglu data ar hyn o bryd – o fewn tri mis
11	Dylai'r practis sicrhau bod modelau deintyddol yn cael eu rhoi yn y cynhwysydd gypswm (plaster) priodol. [Canllawiau WHTM 07-01: practisau deintyddol - adran 21]	Cysylltu â Cannon Hygiene a threfnu i waredu gypswm ar wahân.	Zoe Clarke	Ar unwaith
11	Dylid diweddarau'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd gydag enwau'r goruchwylydd	Mae enwau'r goruchwylydd a'r cynghorydd diogelwch ymbelydredd wedi cael eu gosod	Colin Rees	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant Sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>a'r cynghorydd diogelwch ymbelydredd a manylion y perchennog newydd.</p> <p>[Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000]</p>	<p>mewn ffrâm ac yn cael eu dangos yn y ddwy ystafell driniaeth er mwyn i'r cleifion a'r staff eu gweld. Byddwn hefyd yn rhoi'r enwau yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd.</p>		
12	<p>Dylai'r practis gynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer offer radiograffig yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).</p> <p>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, Safon 6a; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000]</p>	<p>Bydd y practis yn cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer offer radiograffig bob chwe mis ac yn datblygu cynllun gwella i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a amlygir.</p>	Zoe Clarke	6 mis
12	<p>Dylai'r practis sicrhau bod yr holl offer dadebru a'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cadw gyda'i gilydd er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth drin cleifion mewn achos brys.</p> <p>Dylai'r practis ddatblygu polisi dadebru, fel bod yr holl staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3; Canllawiau'r Cyngor Dadebru DU]</p>	<p>Mae'r holl offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys (oni bai bod angen eu cadw mewn oergell) yn cael eu cadw yn yr ystafell ddadheintio sy'n ganolog i'r ddwy ystafell driniaeth ac y gellir mynd ati'n hawdd o'r dderbynfa.</p> <p>Mae gan y practis weithdrefn dadebru, sy'n cael ei chadw gyda'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys. Bydd polisi'n cael ei osod yn y ffolder polisi yn awr.</p>	Zoe Clarke	1 mis

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant Sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
12	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod system gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn bresennol ac yn ddiogel i'w defnyddio.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.3; Canllawiau'r Cyngor Dadebru DU]</p>	<p>Mae aelod penodedig o staff bellach yn gyfrifol am y cyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys. Bydd yr holl offer yn cael ei wirio bob mis.</p>	Zoe Clarke	Ar unwaith
14	<p>Dylid gwneud gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion cleifion a dylid cofnodi'r canlynol yn nodiadau cleifion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Nodiadau mwy manwl am archwiliad</li> <li>- Enw neu lythrennau cyntaf y klinigydd sy'n rhoi'r driniaeth (deintydd)</li> <li>- Dylai ffurflenni hanes meddygol gael eu cydlofnodi gan y deintyddion a'u diweddarau bob tro y bydd y claf yn derbyn triniaeth</li> <li>- Gwybodaeth am hanes cymdeithasol a sgrinio canser y geg</li> <li>- Cydsyniad y claf</li> <li>- Dylid rhoi cynllun triniaeth i bob claf.</li> <li>- Pa mor aml caiff cleifion eu galw'n ôl</li> </ul>	<p>Bydd y practis yn rhoi ei gofnodion i gyd ar gyfrifiadur yn ystod y flwyddyn nesaf gan wneud y broses o gadw cofnodion clinigol yn haws ac yn fwy effeithiol. Tan hynny bydd nodiadau clinigol ysgrifenedig yn cael eu gwella trwy ddilyn argymhellion AGIC.</p>	Pob Deintydd	Ar unwaith ar gyfer nodiadau a ysgrifennir â llaw O fewn blwyddyn ar gyfer nodiadau ar gyfrifiadur

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant Sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	<p>- Canfyddiadau clinigol profion pelydr-X</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4; Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, safonau 20c, 7a]</p>			
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
16	<p>Dylai fod gan y practis system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n gyffredol a bod y staff yn ymwybodol ohonynt.</p> <p>[Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, safon 25e]</p>	<p>Mae'r polisiau i gyd wedi cael eu dyfeisio o'r newydd am mai prin oedd nifer y polisiau oedd ar waith cyn i Colin Rees a Zoe Clarke brynu'r practis. Mae'n ofynnol bellach i bob aelod o staff ddarllen y polisiau a'u llofnodi i ddangos eu bod wedi eu deall. Bydd dyddiadau'n cael eu nodi ar bob polisi i ddangos pryd bydd angen ei adnewyddu.</p>	Zoe Clarke	Ar unwaith
17	<p>Dylai pob aelod o staff gael contractau cyflogaeth, gyda manylion y perchnogion newydd a manylion y trefniadau gweithio newydd.</p> <p>[Canllawiau Cyflogaeth Llywodraeth y DU <a href="https://www.gov.uk/employment">https://www.gov.uk/employment</a>; Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006]</p>	<p>Bydd gan bob aelod o staff gontractau cyflogaeth gyda manylion y perchnogion newydd a manylion y trefniadau gweithio newydd.</p>	Zoe Clarke a Colin Rees	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant Sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
17	<p>Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o arwyddion cam-drin plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac o'r gweithdrefnau lleol y dylid eu dilyn os amheuir unrhyw gamdriniaeth.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5; Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru, safon 11c ]</p>	<p>Bydd cyrsiau amddiffyn plant yn cael eu diweddarau a bydd staff yn cael hyfforddiant ar gamdriniaeth oedolion sy'n agored i niwed a bydd gweithdrefnau lleol yn cael eu rhoi ar waith gyda'r gweithdrefnau hyn y dylid eu dilyn os amheuir unrhyw gamdriniaeth.</p>	Zoe Clarke a Colin Rees	O fewn tri mis
18	<p>Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y brechiadau priodol i'w hamddiffyn yn erbyn firysau a gludir yn y gwaed.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 1.5.2]</p>	<p>Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y brechiadau priodol i'w hamddiffyn yn erbyn firysau a gludir yn y gwaed</p>	Zoe Clarke a Colin Rees	Ar unwaith
19	<p>Dylid diweddarau'r polisi i gynnwys manylion cyswllt AGIC ar gyfer cleifion preifat.</p> <p>Dylai'r polisi gynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.</p> <p>[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011 adran 15 (4a); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.3]</p>	<p>Bydd y polisi'n cael ei ddiweddarau i gynnwys manylion cyswllt AGIC i gleifion preifat, gan gynnwys manylion y Cyngor Iechyd Cymuned ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG</p>	Zoe Clarke	Ar unwaith
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant Sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
20	<p>Dylai'r practis ddangos gwybodaeth am staff (gan gynnwys eu rhif cofrestru lle y bo'n briodol), mewn man lle gall cleifion ei gweld yn hawdd.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol adran 6.6.10]</p>	<p>Mae gwybodaeth cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn weladwy i gleifion yn y ffolder gwybodaeth i gleifion, a'r daflen i gleifion y mae'r ddau ohonynt ar gael yn y dderbynfa. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei gosod ar ddrws ffrynt y practis yn awr.</p>	Zoe Clarke	Ar unwaith
21	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod arwyddion priodol ar gyfer pob allanfa dân yn cael eu harddangos yn y practis.</p> <p>[Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 adran 12(2)(g)]</p>	<p>Tynnwyd arwyddion allanfeydd tân i lawr oherwydd y gwaith ailwampio. Mae'r arwyddion hyn eisoes wedi cael eu hail osod.</p>	Zoe Clarke	Ar unwaith



**Cynrychiolydd y Practis:** Zoe Clarke a Colin Rees

**Enw (printiwch):** Zoe Clarke a Colin Rees

**Teitl:** Dr Zoe Clarke a Dr Colin Rees

**Dyddiad:** 20 Mai 2015